HM Government

Scottish Government
gov.scot

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs
www.daera-ni.gov.uk

# DYFODOL PRISIO CARBON YN Y DU

## Ymateb Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig

### Crynodeb Gweithredol

1. Cynhaliodd Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ymgynghoriad ar ddyfodol prisio carbon yn y DU ar ôl iddi adael yr UE. Cafwyd dros 130 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, gyda'r rhan fwyaf yn cefnogi mwyafrif ein cynigion ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS) y DU.

2. Mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi llwyr ymroi i brisio carbon fel rhan bwysig o'u harfogaeth i gyrraedd ein targedau ar gyfer lleihau allyriadau carbon, a hynny am y gost isaf bosibl i fusnesau. Bydd ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol o leiaf yr un mor uchelgeisiol â rhai ETS yr UE a byddant yn gyfrwng i esmwytho'r newid i sectorau perthnasol.

3. Ein bwriad yw sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau ar gyfer y DU, gyda Cham 1 yn rhedeg o 2021-2030. Gallai weithredu fel cynllun cysylltiedig neu gynllun ar wahân. Fel y dywedwn yn 'The UK's Approach to Negotiations', byddai'r DU yn barod i ystyried cysylltu ei ETS ag ETS yr UE (fel ag y mae'r Swistir wedi'i wneud â'i ETS hithau), pe bai hynny o fudd i'r ddwy ochr. Cyhoeddwyd yng Nghyllideb 2020 y byddai Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni ar siâp Treth Allyriadau Carbon, fel trywydd posibl yn lle ETS y DU, er mwyn sicrhau bod pris carbon yn cael ei ystyried ym mhob senario.

4. Bydd ETS y DU yn effeithio ar ddiwydiannau sy'n drwm ar ynni, y sector cynhyrchu pŵer a hedfan – gan gynnwys gweithgareddau sy'n llosgi tanwyddau mewn gweithfeydd a chanddynt fewnbwn thermol o fwy na 20MW (ac eithrio gweithfeydd sy'n llosgi gwastraff peryglus neu drefol) a sectorau fel puro olew,

diwydiannau trwm a gweithgynhyrchu. Disgwylir i'r llwybrau hedfan gynnwys hediadau domestig yn y DU, hediadau rhwng y DU a Gibraltar, hediadau o'r DU i wledydd yr EEA, a hediadau o'r DU i'r Swistir unwaith y ceir cytundeb.

5. O gofio ymrwymiad y DU i sicrhau allyriadau sero-net erbyn 2050, bydd ETS y DU o ran yr hinsawdd yn fwy uchelgeisiol o'r dechrau. I'r perwyl hwnnw, i ddechrau, gosodir terfyn sydd 5% yn is na chyfran amcanol y DU o derfyn ETS yr UE ar gyfer Cam IV ETS yr UE. Bydd y CCC yn cyhoeddi yn ddiweddarach eleni fanylion trywydd cost-effeithiol at sero-net, fel rhan o'i gyngor ar y Chweched Gyllideb Garbon. O fewn naw mis ar ôl cyhoeddi'r wybodaeth, byddwn yn ymgynghori eto ar drywydd priodol ar gyfer pennu terfyn ETS y DU ar gyfer gweddill y cam cyntaf hwn. Ein nod yw bod unrhyw newidiadau i'r polisi ar gyfer alinio'r terfyn â'r trywydd at sero-net yn cael eu gwneud erbyn 2023 os medrir, a ddim hwyrach na mis Ionawr 2024, er y carem roi rhybudd o flwyddyn o leiaf i ddiwydiant er mwyn i'r farchnad gael digon o ragrybudd.

6. Y system ocsiynau fydd y brif drefn o hyd ar gyfer cyflwyno lwfansau i'r farchnad. I sicrhau bod ETS y DU yn parhau'n gystadleuol ac i osgoi'r risg o golli lwfansau carbon i farchnadoedd eraill llai llym, bydd cyfran o'r lwfansau yn cael eu neilltuo am ddim. Bydd rhai lwfansau ar gael am ddim hefyd ar gyfer gweithfeydd sefydlog sy'n newydd i ETS y DU yn ogystal ag i fusnesau sydd am gynyddu eu gweithgarwch. Bydd y lwfansau hyn ar gael trwy'r Gronfa Masnachwyr Newydd. Bydd y drefn hon gan ETS y DU o roi lwfansau am ddim yn debyg i'r honno yng Ngham IV er mwyn sicrhau bod y newid i gyfranogwyr yn un esmwyth, mewn pryd ar gyfer lansiad 2021.

7. Rydym fodd bynnag yn sylweddoli bod amrywiaeth o safbwyntiau wedi'u mynegi yn yr ymgynghoriad a'i bod yn hanfodol rhoi ystyriaeth deg, cymesur ac ystyriol i welliannau posibl i'r drefn ar gyfer cyflwyno lwfansau am ddim. Byddwn yn dechrau adolygu'r newidiadau posibl yn y misoedd i ddod.

8. Mewn ETS sy'n benodol i'r DU, byddwn yn cyflwyno Pris Cadw (ARP) dros dro o £15 i gynnal lefel yr uchelgais a phris cyson yn ystod blynyddoedd cyntaf ETS y DU. Er mwyn lleddfu pryderon ynghylch gallu ETS y DU i ymateb i unrhyw gynnydd sydyn yn y pris ym mlynyddoedd un a dwy ETS y DU, bydd gan y Fecanwaith Cyfyngu ar Gostau (CCM) drothwyon is o ran prisiau ac amser. Bydd hynny'n helpu Llywodraeth y DU i allu penderfynu a ddylai ymyrryd yn gynt pe ceid prisiau uchel iawn. Byddwn yn mynd yn ôl i CCM ETS yr UE ym mlwyddyn tair ETS y DU, neu cyn hynny os byddwn yn cysylltu ag ETS yr UE. Byddwn yn ymgynghori ar wahân ar ffurf Mecanwaith Cymhwyso Cyflenwadau (SAM) os dewisir ETS y DU ar wahân.

9. Byddwn yn cynnig y dewis i Allyrwyr Bach ac Ysbytai, sef gweithfeydd sy'n allyrru llai na 25,000t CO2e y flwyddyn ac sydd â chapasiti thermol net o lai na 35MW, i optio allan. Caiff Allyrwyr Bach Iawn, sef gweithfeydd sy'n cynhyrchu llai na 2,500t CO2e y flwyddyn o allyriadau, eu heithrio.

10. Ni fydd ETS y DU yn caniatáu credydau rhyngwladol am y tro. Ni fydd hyn yn rhagfarnu'r adolygiadau sy'n cael eu cynnal ar sut orau i roi cynllun niwtraleiddio carbon y Cenhedloedd Unedig, CORSIA, ar waith, i gyd-fynd ag ETS y DU.

11. Bydd y Llywodraeth yn cynnal dau o’r tri adolygiad sy’n cael eu cynnig yn y ddogfen ymgynghori, gan ymgorffori adolygiad canol y Cam yn yr ail adolygiad llawn o’r Cam. Caiff adolygiad cychwynnol o ETS y DU ei gynnal o 2023 i asesu perfformiad y system gyfan dros hanner cyntaf y Cam (2021-2025). Caiff unrhyw newidiadau y gwelir bod eu hangen i’w ddyluniad eu gwneud erbyn 2026; cynhelir adolygiad llawn o 2028 ymlaen i asesu perfformiad y system gyfan dros Gam I (2021-2030) gydag unrhyw newidiadau i reolau ETS y DU yn cael eu gwneud ar gyfer Cam II erbyn 2031. Mae’r adolygiadau hyn yn cyd-fynd ag adolygiadau Cam IV ETS yr UE o gyfrifiadau Cytundeb Paris.

12. Bydd ETS y DU yn rhan bwysig o ymdrechion pob rhan o’r llywodraeth i daro’r targed sero-net, hynny fel rhan o becyn cydlynol o bolisïau a’r £2 biliwn i helpu amrywiaeth o sectorau i ddatgarboneiddio, a £315m y Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol i helpu diwydiant i fuddsoddi mewn technolegau arbed ynni a datgarboneiddio.